

---

# Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd

Perfformiad y BBC

---

**DATGANIAD**

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Hydref 2017

# Gair am y ddogfen hon

---

O dan y Siarter Brenhinol a'r Cytundeb cysylltiedig newydd, cafodd rheoleiddio'r BBC ei drosglwyddo o Ymddiriedolaeth y BBC i Ofcom ar 3 Ebrill 2017. Un o gyfrifoldebau canolog Ofcom ydy dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus.

Fel rhan o'n cyfrifoldebau newydd, rhaid i ni gyhoeddi Fframwaith Gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau er mwyn rheoleiddio'r BBC yn effeithiol. Mewn perthynas â pherfformiad y BBC, rhaid i ni osod trwydded weithredu ar gyfer y BBC, a gallwn osod mesurau i asesu perfformiad y BBC. Rhaid i'r drwydded nodi'r amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi rydyn ni'n credu sy'n briodol er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Roedden ni wedi ymgynghori ynghylch yr isod rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2017:

- a) trwydded weithredu ddrafft y BBC, a'r broses ar gyfer ei gosod a'i diwygio yn y dyfodol; a
- b) mesurau perfformiad arfaethedig Ofcom ar gyfer y BBC, a'r broses ar gyfer eu gosod a'u diwygio yn y dyfodol.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi ein trwydded weithredu gyntaf ar gyfer y BBC a'n fframwaith perfformiad, ynghyd â'r prosesau ar gyfer gosod a diwygio'r rhain yn y dyfodol. Mae hefyd yn cynnwys Atodiadau manwl sy'n nodi sut rydyn ni wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chynllun blynyddol interim y BBC a gafodd ei gyhoeddi ar 3 Gorffennaf 2017.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb	1
2. Ein rol a'n hymdriniaeth	5
3. Y Drwydded: crynodeb o'r ymdriniaeth	8

## 1. Crynodeb

- 1.1 Y BBC ydy'r sefydliad cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf yn y DU, gan ddarparu rhaglenni ar y teledu, ar y radio a chynnwys ar-lein. Mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau eithriadol o uchel o'r BBC, sydd wedi'u siapio gan ei rôl fel darlledwr sy'n cael cyllid cyhoeddus sydd â chylch gwaith i hysbysu, i addysgu ac i ddiddanu'r cyhoedd ac i gefnogi'r economi greadigol ar draws y DU.
- 1.2 Er mwyn diwallu'r disgwyliadau hyn, mae'n rhaid i'r BBC gyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus sydd wedi'u nodi yn ei Siarter Frenhinol newydd (y Siarter). Am y tro cyntaf, bydd y BBC yn cael ei ddal i gyfrif yn drwyadl am wneud hynny gan reoleiddiwr allanol annibynnol. Ochr yn ochr â chyfrifoldebau am safonau rhaglenni a diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol yn y meysydd y mae'r BBC yn gweithredu ynddyn nhw, mae'r Siarter yn gwneud Ofcom yn gyfrifol am osod trwydded weithredu'r BBC (y Drwydded). Mae hon yn gosod amodau rhwymol sy'n mynnu bod y BBC yn cyflawni ar gyfer y rheini sy'n talu ffi'r drwydded. Ein gwaith ni hefyd ydy craffu, mesur ac adrodd ar berfformiad y BBC.
- 1.3 Ar 29 Mawrth 2017, roedden ni wedi ymgynghori ynghylch Trwydded ddrafft a oedd yn nodi gofynion i'r BBC gyflawni ei gylch gwaith, a chynlluniau i Ofcom fesur perfformiad cyffredinol y BBC. Rydyn ni wedi ystyried dros 100 o ymatebion yn ofalus a ddaeth oddi wrth aelodau'r cyhoedd a'r diwydiant. Rydyn ni wedi ystyried cynllun blynyddol interim y BBC ar gyfer 2017/18 a gafodd ei gyhoeddi ar 3 Gorffennaf 2017. Rydyn ni hefyd wedi cynnal ymchwil arbennig i safbwyntiau a disgwyliadau cynulleidfaoedd o'r BBC.

### Trwydded a fframwaith perfformiad ar gyfer y BBC

- 1.4 Heddiw rydyn ni'n cyhoeddi trwydded a mesurau perfformiad cyntaf Ofcom ar gyfer y BBC. Mae ein Trwydded derfynol yn cadw'r rhan fwyaf o'r amodau rheoleiddio a oedd wedi cael eu cynnig yn y fersiwn drafft roedden ni wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth, ac mae'n cryfhau rhai ohonynt mewn ymateb i'r ymgynghoriad a'n gwaith ymchwil ein hunain. Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu rhai amodau rheoleiddio newydd. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC ddiwallu'r holl ofynion rydyn ni wedi'u nodi; os na fydd yn gwneud hynny, byddwn yn cymryd camau i'w gorfodi.
- 1.5 Mae'r Drwydded gyntaf hon a'r mesurau perfformiad rydyn ni wedi'u gosod ochr yn ochr â hi wedi cael eu dylunio i gyflawni bwriad y Siarter a'r Cytundeb newydd<sup>1</sup> yn llawn, drwy roi'r penderfyniadau creadigol yn nwylo'r rheini sy'n gwneud rhaglenni, ond gan ymestyn a herio'r BBC i gyflawni ar gyfer ei holl gynulleidfaoedd.
- 1.6 Mae'r Drwydded yn gosod ystod eang o amodau rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC eu diwallu. Mae ein hamodau rheoleiddio newydd yn codi'r disgwyliadau ar y BBC. Yn y rhan fwyaf o feysydd, maen nhw'n rhoi gofynion llymach ar y darlledwr nag oedd yn bodoli'n

---

<sup>1</sup> Mae'r Cytundeb, a gafodd ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ar 15 Rhagfyr 2016, rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r BBC.

flaenorol, yn ogystal â diogelu prif feysydd cyflawni. Maen nhw'n gosod gwaelodlin ar gyfer perfformiad yn y dyfodol.

1.7 Bydd y drwydded yn:

- a) **Cryfhau rheolau newyddion a materion cyfoes.** Er mwyn gwneud yn siŵr bod y BBC yn cyrraedd y cynulleidfaoedd ehangaf posibl gyda'i gynnwys newyddion a materion cyfoes, rydyn ni wedi cyflwyno cwotâu ar gyfer newyddion ar BBC One a materion cyfoes ar BBC One a BBC Two, ac rydyn ni wedi gosod amodau rheoleiddio newydd ar gyfer radio. Am y tro cyntaf, bydd yn rhaid i Radio 2 ddarlledu o leiaf tair awr o newyddion a materion cyfoes yn ystod oriau brig bob wythnos, a bydd yn rhaid i Radio 1 ddarlledu bwletin newyddion estynedig yn ystod oriau brig o ddydd Llun i ddydd Gwener;
- b) **Cynyddu'r gofynion o ran rhaglenni i blant.** Rhaid i CBBC ddangos o leiaf 400 awr – a rhaid i CBeebies ddangos o leiaf 100 awr – o raglenni newydd sbon sydd wedi cael eu comisiynu yn y DU bob blwyddyn. Rhaid i CBeebies ddarparu amrywiaeth o raglenni sy'n cefnogi dysgu plant cyn oed ysgol;
- c) **Sicrhau BBC sy'n fwy unigryw** ar draws ei holl wasanaethau – nodwedd ganolog yn y Siarter – drwy amrywiaeth o fesurau newydd. Dylai o leiaf dri chwarter o'r holl oriau rhaglenni ar sianeli teledu mwyaf poblogaidd y BBC fod yn gynyrchiadau gwreiddiol, wedi'u comisiynu gan y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Bydd gofynion newydd ar Radio 1 a Radio 2 i chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r hyn mae gorsafoedd masnachol tebyg yn ei wneud a mwy o gerddoriaeth gan artistiaid newydd ac sy'n dod i'r amlwg yn y DU;
- d) **Cefnogi ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol ar radio'r BBC.** Rydyn ni'n mynnu bod Radio 1 yn cynnig nifer sylfaenol o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr bob blwyddyn. Mae darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ifanc a rhoi llwyfan iddyn nhw ymgysylltu yn un o'r prif ffyrdd gall BBC Radio 1 osod ei hun ar wahân i orsafoedd radio eraill;
- e) **Diogelu genres sydd dan fygythiad fel rhaglenni am y celfyddydau, rhaglenni cerddoriaeth a rhaglenni crefyddol.** Mae ein hymchwil yn dangos bod rhai cynulleidfaoedd yn ystyried bod y meysydd hyn yn bwysig; ond mae rhai yn dirywio. Felly rydyn ni wedi cadarnhau gofynion uwch i BBC One a BBC Two ddangos rhaglenni yn y genres hyn, gan gynnwys gofyniad newydd i ddarlledu yn ystod yr oriau gwyllo brig. Gyda BBC Three wedi symud ar-lein, rydyn ni hefyd wedi cyflwyno amod i ddiogelu'r rhaglenni comedi ar y sianeli hyn am y tro cyntaf;
- f) **Cefnogi amrywiaeth eang o genres sy'n cael eu gwerthfawrogi.** Rhaid i'r BBC gefnogi amrywiaeth eang o genres ar draws ei sianeli a'i wasanaethau, fel rhaglenni drama, rhaglenni comedi a rhaglenni ffeithiol a gwahanol fathau o gerddoriaeth.<sup>2</sup> Mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC gefnogi genres sy'n cael eu gwerthfawrogi, yn enwedig y rheini y

---

<sup>2</sup> Mae'r Drwydded yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae rhestr o'r rhain ar gael yn Atodlen 1 i'r Cytundeb.

mae'r buddsoddiad ynddynt wedi disgyn. Rydyn ni hefyd yn disgwyl i'r BBC barhau i gynhyrchu rhaglenni ar amrywiaeth eang o themâu a diddordebau – yn cynnwys rhaglenni am wleidyddiaeth, busnes, materion defnyddwyr, materion gwledig, iechyd anabledd a gweithredu cymdeithasol. Byddwn yn monitro allbwn y BBC mewn amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau ei fod yn diwallu ei ddibenion cyhoeddus a'i fod yn darparu amrywiaeth eang o raglenni ar draws ei wasanaethau;

- g) **Cefnogi cynulleidfaoedd ac economïau creadigol cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y DU.** Am y tro cyntaf, mae'n rhaid i'r BBC wario tua'r un faint ar raglenni, y pen, a gwneud tua'r un faint o gomisiynau, y pen, ym mhob un o bedair gwlad y DU. Drwy wneud hyn, rydyn ni'n ceisio sicrhau bod gwledydd y DU yn cael cyfran deg o fuddsoddiad y BBC mewn rhaglenni rhwydwaith. Rydyn ni hefyd yn mynnu bod o leiaf hanner gwariant y BBC ar gynyrchiadau rhaglenni rhwydwaith sy'n gymwys, i gael ei wneud y tu allan i Lundain; a
- h) **Mynnu bod y BBC yn adlewyrchu amrywiaeth lawn poblogaeth y DU.** Rydyn ni'n mynnu bod y BBC yn rhoi Cod Ymarfer Amrywiaeth comisiynu newydd ar waith a fydd yn cael ei gymeradwyo gennym ni, erbyn mis Ebrill 2018. Bydd hyn yn sicrhau bod ystyriaethau amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin yn cael eu gwreiddio yn y broses gomisiynu. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y BBC yn atebol yn gyhoeddus am gyrraedd ei dargedau amrywiaeth y gweithlu. Rhaid iddo nawr adrodd yn fanwl ar ei gynnydd at gyrraedd y targedau hyn bob blwyddyn.
- 1.8 Rydyn ni wedi ystyried yr effaith ein gofynion ar y BBC ac yn hyderus eu bod yn gymesur a bod modd eu cyflawni o fewn cyllidebau'r BBC.
- 1.9 Rydyn ni hefyd yn cyhoeddi adolygiad manwl o sut caiff cynulleidfaoedd gwahanol eu cynrychioli a'u portreadu ar y BBC. Dylai pob cynulleidfa deimlo bod y BBC yn cynnig rhywbeth iddyn nhw. Fodd bynnag mae ein hymchwil yn dangos nad ydy nifer o grwpiau'n teimlo ei fod yn cynrychioli eu diddordebau neu eu bywydau'n ddigonol. Dyma ein hadolygiad ad hoc cyntaf o'r BBC. Fel rhan o'n dadansoddiad, ein bwriad yw i archwilio amrywiaeth ar y sgrin yn rhaglenni'r BBC, yn cynnwys ei raglenni poblogaidd sy'n cael eu dangos yn ystod oriau brig. Bydd yr adolygiad yn gofyn beth mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl gan y BBC, er mwyn deall a yw'n adlewyrchu ac yn portreadu bywydau pawb ar draws y DU i gyd, gan amrywio o gynulleidfaoedd iau a hŷn i gymunedau amrywiol. Byddwn yn ystyried canlyniadau'r adolygiad wrth i ni siapio ein gwaith yn goruchwyllo'r BBC yn y dyfodol, a byddwn yn cymryd mesurau pellach pan fydd angen i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd.
- 1.10 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod yn y Drwydded yn ddim ond rhan o sut byddwn ni'n dal y BBC i gyfrif. Mae'n nodi'r elfennau lle mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu, neu lle rydyn ni wedi canfod, bod angen amodau rheoleiddio penodol. Mae'r Drwydded yn rhoi gofynion heriol mewn amrywiaeth o feysydd, ond rydyn ni'n disgwyl i'r BBC fynd ymhellach. Yn ogystal â'r rheolau rydyn ni wedi'u rhoi yn y Drwydded, rydyn ni wedi cyhoeddi heddiw ein cynlluniau manwl ar gyfer mesur perfformiad y BBC, nid yn unig yn erbyn yr amodau rheoleiddio sydd wedi'u nodi yn y Drwydded ond ar draws holl wasanaethau a chynnyrch y BBC.

- 1.11 Mae hyn yn golygu y bydd rheoleiddiwr allanol yn mynd ati'n annibynnol ac yn dryloyw i asesu perfformiad y BBC yn erbyn ei gylch gwaith am y tro cyntaf. Bydd ymchwil traciwr newydd yn dangos i ba raddau mae cynulleidfaoedd yn teimlo bod y BBC yn eu gwasanaethu nhw, a byddwn yn cynnal dadansoddiad rheolaidd o allbwn y BBC, gan fonitro ac asesu sut mae'n cyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol.
- 1.12 Bydd y Drwydded a'r mesurau perfformiad yn esblygu dros amser. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC barhau i wella sut mae'n cyflawni yn erbyn ei gylch gwaith. Byddwn hefyd yn barod i newid mewn ymateb i newidiadau yn anghenion a chwaethau'r cyhoedd, a fydd yn cael eu datgelu drwy ein hymchwil cynulleidfaoedd annibynnol.
- 1.13 Ni fyddwn yn derbyn safonau sy'n disgyn ar allbwn a gwasanaethau'r BBC. Os na fydd y BBC yn cyrraedd y nod, byddwn yn camu i mewn ar ran cynulleidfaoedd.

## 2. Ein rôl a'n dull gweithredu

- 2.1 Roedd y Siarter newydd ar gyfer y BBC, a fydd yn rhedeg tan ddiwedd 2027, yn rhoi cenhadaeth a dibenion cyhoeddus ffres i'r BBC, gyda ffocws newydd ar fod yn unigryw. Roedd y Siarter newydd hefyd yn gwneud newidiadau mawr i sut roedd y BBC yn cael ei oruchwylio: roedd yn sefydlu Bwrdd BBC newydd i redeg y BBC yn lle Ymddiriedolaeth y BBC, ac roedd yn symud y cyfrifoldeb am reoleiddio'r BBC i gorff annibynnol ar wahân – Ofcom.
- 2.2 O dan y Siarter a'r Cytundeb, rhaid i Fwrdd y BBC redeg y BBC – gan osod cyfeiriad strategol y BBC a'i gyllidebau, a goruchwylio dull gweithredu golygyddol a chreadigol cyffredinol y BBC, gan gynnwys goruchwylio penderfyniadau ynghylch comisiynu ac amserlennu. Rôl Ofcom ydy rheoleiddio'n gadarn, yn deg ac yn annibynnol mewn tri maes: safonau rhaglenni, effaith y BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, a pherfformiad y BBC wrth gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus.
- 2.3 Yn y drefn newydd hon, rhaid i Fwrdd y BBC arwain y BBC i gyflawni nodau'r Siarter. Mae Ofcom yn gyfrifol am ddal y BBC i gyfrif am berfformiad ar draws ei amrywiaeth o wasanaethau. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, mae gennym amrywiaeth o declynnau, gan gynnwys:
  - a) gallu gosod amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU drwy'r Drwydded. Rhaid i ni roi amodau rheoleiddio ar waith rydyn ni'n credu sy'n briodol i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo'i ddibenion cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod yr holl gynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da;
  - b) gallu gorfodi'r BBC i gydymffurfio gan gynnwys, am y tro cyntaf, dirwyon posibl os bydd yn methu â chyflawni'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod;
  - c) pwerau i osod fframwaith mesur perfformiad newydd i asesu sut mae'r BBC yn cyflawni'i genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus; a
  - d) phwerau i gynnal adolygiadau o berfformiad yn ôl ein disgresiwn.

### Y Drwydded gyntaf

- 2.4 Daeth yr ymgynghoriad ynghylch ein Trwydded ddrafft a'n mesurau perfformiad i ben ar 17 Gorffennaf 2017, gan ganiatáu i Ofcom ac eraill ystyried ymrwymadau'r BBC ei hun i ddiwallu ei ddibenion cyhoeddus newydd yn ei gynllun blynyddol interim, a gyhoeddwyd ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Drwydded rydyn ni'n ei chyhoeddi heddiw yn cyflwyno'n penderfyniadau ar yr amodau rheoleiddio a'r amcanion rydym yn eu gosod ar gyfer y BBC.
- 2.5 Roedd ein hymgyngoriad yn cynnig un Drwydded ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU – teledu, radio ac ar-lein - yn lle'r hen system o drwydded gwasanaeth ar gyfer pob un o wasanaethau unigol y BBC. Rydyn ni wedi penderfynu gosod un Drwydded ar



gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU oherwydd bod hynny'n fwy hygyrch a chydlynol, gan y bydd y gofynion gwahanol rydyn ni'n eu gosod yn cael eu hanelu'n amrywiol at un o wasanaethau'r BBC, rhai ohonynt neu'r cwbl. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn caniatáu i ni addasu'r Drwydded yn y dyfodol. Rydyn ni'n ategu hyn drwy gynhyrchu dogfennau unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU, gan dynnu'r holl amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC yn y wlad honno at ei gilydd mewn un lle.

- 2.6 Roedden ni'n cynnig y dylid trefnu ein Trwydded o amgylch dibenion cyhoeddus y BBC. Ar gyfer pob diben cyhoeddus rydyn ni wedi gosod amcanion ar gyfer y BBC, gydag amrywiaeth o amodau rheoleiddio penodol - gofynion mae modd eu mesur y byddwn ni'n eu hasesu'n wrthrychol, ac yn eu gorfodi os na fydd y BBC yn cyrraedd y nod.<sup>3</sup> Mae'r Drwydded derfynol yn cynnal y dull gweithredu hwn, ond rydyn ni wedi gwneud nifer o newidiadau i wella ac i gryfhau'r amodau mewn ymateb i ymatebion i'r ymgynghoriad, ein hymchwil ein hunain ac adroddiad blynyddol interim y BBC. Mae'r Atodiadau i'r Datganiad hwn yn nodi'n fanwl yr ymatebion a gawsom a'n rhesymau dros ein dull gweithredu terfynol.

## Mesur perfformiad y BBC

- 2.7 Dim ond un rhan yw'r amodau rheoleiddio o sut byddwn ni'n sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus. Byddwn hefyd yn asesu ac yn darparu adroddiadau tryloyw am sut mae'n perfformio ar draws yr ystod lawn o'i wasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Byddwn yn datblygu'n Trwydded a'n mesurau perfformiad dros amser, gan herio'r BBC i wneud mwy ar gyfer ei holl gynulleidfaoedd. Roedden ni hefyd wedi ymgynghori ym mis Mawrth ynghylch sut byddem yn mesur perfformiad y BBC ar draws ei gylch gwaith. Mae ein dull gweithredu manwl wedi'i nodi yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.
- 2.8 Mae gan Ofcom gyfrifoldebau rheoleiddio eraill dros y BBC sy'n rhyngweithio â'r Drwydded a'r fframwaith perfformiad. Rydyn ni'n sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â gofynion y Cod Darlledu, gan gynnwys mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy, niwed a thramgwydd; a'n bod yn sicrhau bod effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn briodol - diogelwch pwysig ar gyfer eraill sy'n gweithredu yn y farchnad yn y DU.
- 2.9 Mae gweddill y Datganiad hwn yn nodi:
- a) ein dull gweithredu terfynol ar gyfer pob diben cyhoeddus yn y Drwydded;
  - b) y fframwaith perfformiad rydyn ni wedi'i nodi ar gyfer y BBC; a
  - c) sut byddwn ni'n datblygu ein gwaith craffu o'r BBC dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

---

<sup>3</sup> Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Nid yw'r Drwydded newydd rydyn ni'n ei chyhoeddi heddiw yn cynnwys BBC World Service; cyfrifoldeb y BBC yw pennu trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 32 o'r Cytundeb).

2.10 Mae'r Atodiadau i'r Datganiad hwn yn cynnwys:

- a) crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
- b) crynodeb o safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch ein dull gweithredu cyffredinol;
- c) ein rhesymwaith dros y penderfyniadau hynny;
- d) y Drwydded derfynol;
- e) fframwaith perfformiad terfynol y BBC; a
- f) gweithdrefnau'r fframwaith gweithredu olaf ar gyfer gosod a diwygio'r Drwydded a'r mesurau perfformiad.

## 3. Y Drwydded: crynodeb o'r dull gweithredu

### Diben cyhoeddus (1): Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

- 3.1 Mae darparu newyddion, materion cyfoes a chynnwys ffeithiol y BBC sy'n gywir ac yn ddiuedd yn chwarae rhan allweddol o ran helpu i sicrhau bod dinasyddion y DU yn cael gwybodaeth a'u bod yn gallu chwarae rhan weithredol yn y byd o'u cwmpas. Y BBC ydy'r ffynhonnell newyddion sy'n cael ei defnyddio amlaf yn y DU. Mae cynulleidfaoedd yn cydnabod ei fod yn frand mae modd ymddiried ynddo sy'n darparu gwybodaeth ddibynadwy o ansawdd uchel. At ei gilydd, roedd y rheini a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn cytuno â phwysigrwydd diogelu darpariaeth ac amlygrwydd newyddion, materion cyfoes a gwybodaeth ar draws gwasanaethau'r BBC. Roedd rhai yn dadlau y dylai'r BBC roi mwy o ffocws ar gynnwys rhyngwladol sy'n mynd y tu hwnt i sylw yn y newyddion.
- 3.2 Rydyn ni wedi gosod amcanion clir ar gyfer darpariaeth newyddion y BBC. Rhaid i'r BBC ddarparu lefel sylweddol o raglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol ar draws ei ystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, yn ogystal ag ymdrechu i gyrraedd ac i wasanaethu pob cynulleidfa. Rhaid i'w newyddion fod yn ddibynadwy, rhaid i bobl allu ymddiried yn y newyddion a rhaid i'r newyddion gael eu cynhyrchu yn ôl y safonau golygyddol uchaf. Dylai'r BBC hefyd chwarae rhan bwysig drwy ddangos i gynulleidfaoedd yn y DU beth sy'n digwydd yng ngweddill y byd. Rydyn ni'n cyflwyno amcan i'r BBC ddarparu sylw i themâu rhyngwladol.
- 3.3 Rhaid iddo hefyd ddarparu dolenni digonol at ddeunyddiau ar-lein trydydd partion, yn enwedig yn ei straeon newyddion.
- 3.4 Mae'r BBC yn gweithredu mewn sector sy'n esblygu'n sydyn. Mae newidiadau mewn arferion newyddion yn golygu ei bod yn rhaid i'r BBC ymateb i sicrhau ei fod yn parhau i gyrraedd pob cynulleidfa.
- 3.5 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer y BBC o dan y diben cyhoeddus hwn yn cynnwys:
  - a) cynyddu'r gofynion blaenorol ar gyfer materion cyfoes ar BBC One a BBC Two a newyddion ar BBC One lle mae'r gofynion hyn wedi'u cyflawni yn y gorffennol, er mwyn diogelu'r genres pwysig hyn;
  - b) am y tro cyntaf bydd yn rhaid i Radio 2 yn ystod y cyfnodau gwranddo brig ddarlledu o leiaf dair awr o newyddion a materion cyfoes bob wythnos i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i elwa o allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC; a
  - c) gofyniad oriau brig am newyddion ar Radio 1 i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu newyddion i gynulleidfaoedd mawr o wrandawyr ifanc.

## Diben cyhoeddus (2): Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

- 3.6 Mae'r BBC yn chwarae rhan hollbwysig o ran datblygu a darparu cynnwys sy'n annog cynulleidfaoedd o bob oed i ddysgu am bynciau gwahanol ac ehangu eu gorwelion. Mae diben cyhoeddus 2 yn golygu ei bod yn rhaid i'r BBC helpu pobl i wneud hyn mewn ffyrdd "*a fydd yn hygyrch, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn herio*". Dengys ein hymchwil fod rhaglenni addysg a dysgu ar y teledu'n dal i gael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd yn y DU: roedd dros dri chwarter y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn meddwl ei bod hi'n bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dangos rhaglenni hanes, rhaglenni gwyddoniaeth neu raglenni am y celfyddydau.
- 3.7 Roedd yr ymatebwyr yn croesawu ein cynnig ar gyfer cwotâu uwch ar gyfer rhaglenni drama a ffeithiol ar CBBC, ynghyd â'r rheini ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU a fydd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar CBBC a CBeebies.
- 3.8 Roedd pryderon nad ydy'r BBC yn gwneud digon i gefnogi addysg ffurfiol plant ym mhob rhan o'r DU. Mae'r BBC wedi cydnabod bod angen teilwra a diweddarur hyn mae'n ei gynnig i blant. Roedd ei gynllun blynyddol interim yn cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol o £34m mewn gwasanaethau plant dros y tair blynedd nesaf, a newid strategol at ragor o gynnwys digidol gan bersonoli eu gwasanaethau ar-lein ymhellach ar gyfer plant a phobl ifanc.
- 3.9 Mae ein Trwydded yn nodi amcan y BBC o ddarparu ystod eang o gynnwys, sydd ar gael yn eang ar draws ei wasanaethau, ar bynciau fel y celfyddydau, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes. Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydyn ni hefyd wedi gosod amcan i ddarparu rhaglenni sydd â ffocws rhyngwladol. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC helpu oedolion a phlant i ddatblygu sgiliau i archwilio a llywio'r adnoddau mae'n eu cynnig, a gwasanaethu plant o bob oed, gan ddarparu cynnwys difyr a chyffrous ar gyfer dysgu anffurfiol. Rhaid i'r BBC chwarae rôl bwysig o ran addysg a dysgu yn y DU drwy feithrin partneriaethau â sefydliadau ym maes addysg, diwylliant a chwaraeon. Dylai rannu ei arbenigedd a'i adnoddau, gan gynnwys ei archif, lle bo hynny'n briodol, â sefydliadau arbenigol, er budd cynulleidfaoedd y DU.
- 3.10 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer y BBC o dan y diben cyhoeddus hwn yn cynnwys:
- gosod cwotâu ar gyfer rhaglenni am y celfyddydau, rhaglenni cerddoriaeth a rhaglenni crefyddol ar lefelau uwch nag a fu yn y gorffennol. Mae'r rhain yn cynnwys o leiaf 45 awr o raglenni am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth ar BBC One a 175 awr ar BBC Two; ac o leiaf 115 awr o raglenni crefyddol ar draws y ddwy sianel gyda'i gilydd. Rydyn ni hefyd wedi gosod gofynion newydd i rai o'r rhaglenni hyn fod yn ystod oriau brig;
  - mwy o gwotâu ar gyfer rhaglenni ffeithiol a drama ar CBBC, gan gynnwys gofyniad i ddangos o leiaf 400 awr - ac o leiaf 100 awr ar Cbeebies - o raglenni newydd sbon bob blwyddyn a'r rheini wedi'u comisiynu yn y DU; a
  - gofyniad penodol i BBC Online gefnogi addysg ymhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

## Diben cyhoeddus (3): Dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

- 3.11 Mae'r BBC yn sefydliad unigryw, sy'n gallu cynnig portffolio eang o gynnwys o ansawdd uchel ac unigryw ar draws teledu, radio ac ar-lein. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn rhoi'r angen i'r BBC fod yn greadigol ac yn unigryw yn y canol, gan fynnu bod y BBC yn cynnig allbwn a gwasanaethau sydd – wrth eu hystyried gyda'i gilydd – yn wahanol iawn i ddarparwyr tebyg eraill, ar draws pob llwyfan a gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol.
- 3.12 O dan Atodlen 2 i'r Cytundeb, mae Ofcom yn gyfrifol am osod amodau rheoleiddio ar draws gwasanaethau'r BBC, ac ar gyfer gwasanaethau unigol penodol a genres allweddol, er mwyn sicrhau BBC sy'n fwy unigryw. Rydyn ni wedi cyflawni'r cyfrifoldeb hwn yn ein Trwydded.
- 3.13 Er mwyn helpu i fframio'r gofynion newydd hyn, roedden ni wedi comisiynu ymchwil eang i ddeall sut mae cynulleidfaoedd yn gweld natur unigryw'r BBC nawr, a beth sydd bwysicaf iddyn nhw.<sup>4</sup> At ei gilydd mae cynulleidfaoedd yn teimlo bod ansawdd ac amrywiaeth allbwn y BBC yn "unigryw", ac yn gweld y BBC fel sefydliad sydd â hanes, cyllid a chylch gwaith sy'n ei osod ar wahân. Ond, yn gyffredinol, nid oedd y BBC yn cael ei weld fel sefydliad a oedd yn fwy creadigol ac arloesol na darlledwyr eraill, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau; roedd pobl hŷn yn fwy tebygol fodd bynnag o ystyried bod ei allbwn yn ddigon unigryw oherwydd ei ansawdd a'i ddibynadwyedd.
- 3.14 Roedd rhai yn teimlo bod y BBC yn canolbwyntio'n fwy ar gynulleidfaoedd canol oed a dosbarth canol, gyda llai o gynnyrch yn addas i gynulleidfaoedd iau, pobl o'r dosbarth gweithiol a phobl o gefndir lleiafrifol. Roedd allbwn gwreiddiol o'r DU yn cael ei ystyried fel rhywbeth pwysig. Roedd ansawdd ac amrywiaeth y cynnwys ar y radio yn cael ei ystyried yn unigryw - yn fwy nag ar y teledu ac ar-lein. Ond, roedd rhai am weld mwy o gerddoriaeth heb fod yn y prif ffrwd ar wasanaethau poblogaidd, a mwy o sylw i faterion lleol. Roedd ansawdd a natur broffesiynol gwasanaethu teledu'r BBC yn cael eu hystyried yn rhywbeth unigryw, a felly hefyd eglurder gwasanaethau ar-lein y BBC a pha mor hawdd ydynt i'w defnyddio.
- 3.15 At ei gilydd roedd yr ymatebion i'n hymgyngoriad yn gefnogol o'r amodau rheoleiddio roedden ni'n eu cynnig, yn enwedig y cwotâu ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU a fyddai'n cael eu dangos am y tro cyntaf a'r gofynion allbwn cerddoriaeth ar Radio 1 a Radio 2. Roedd rhai wedi mynegi pryder y gallai rheoleiddio natur unigryw roi pwysau ar y BBC i ganolbwyntio ar feysydd lle mae'r farchnad wedi methu ac felly lleihau ei apêl a'i gyrhaeddiad eang. Roedd rhai wedi dwyn sylw at bwysigrwydd fformatau a theitlau newydd gan ddweud na fyddai'r amodau rheoleiddio ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU a fyddai'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar ei ben ei hun yn gwarantu hyn,<sup>5</sup> tra oedd eraill

<sup>4</sup> <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/bbc-distinctiveness-report>

<sup>5</sup> Mae rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU yn golygu rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer un o wasanaethau teledu'r BBC a heb gael eu dangos o'r blaen ar deledu yn y Deyrnas Unedig.

yn gwneud y pwynt bod cyfresi sydd wedi bod yn rhedeg ers tro hefyd yn gallu bod yn unigryw. Roedd rhai yn dadlau dros gadw amodau rheoleiddio genres penodol neu'n cynnig eu gofynion eu hunain ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau.

- 3.16 Rydyn ni wedi ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus. Mae'r trydydd diben cyhoeddus wrth galon y Siarter newydd, a phwrpas y rhan fwyaf o'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu rhoi ar y BBC ar draws ei wasanaethau yw i'w hyrwyddo. Bydd nifer o'n hamodau rheoleiddio ar gyfer dibenion cyhoeddus eraill yn cyfrannu at BBC sy'n fwy unigryw – fel darparu newyddion a materion cyfoes, mwy o gynnwys plant sydd wedi cael ei gomisiynu, a chyfran uwch o raglenni'n cael eu gwneud yn y gwledydd neu'r tu allan i Lundain. Wrth eu hystyried gyda'i gilydd, maen nhw'n rhoi cyfres glir o ofynion rydyn ni'n disgwyl i'r BBC nid yn unig eu diwallu ond rhagori arnynt.
- 3.17 O dan y diben cyhoeddus hwn, rydyn ni'n rhoi amcanion i'r BBC yn benodol er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o raglenni'n cael eu darparu ar draws ei wasanaethau teledu, a sicrhau niferoedd ac amlygrwydd y genres y nodir eu bod mewn perygl neu'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Ar radio, dylai'r BBC sicrhau bod ei bortffolio o orsafoedd yn cynnig yr amrywiaeth ehangaf posib o allbwn, a bod yr amrywiaeth o gerddoriaeth ar ei wasanaethau radio mwyaf poblogaidd yn fwy eang na darparwyr tebyg. O ganlyniad i'n hymgyngoriad, rydyn ni wedi cynnwys amcan penodol i'r BBC ganolbwyntio ar arloesi a chymryd risgiau creadigol drwy gomisiynu ac amserlennu teitlau newydd. Rydyn ni hefyd yn disgwyl gweld allbwn wedi'i gomisiynu gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau a syniadau'n cael eu hadlewyrchu ar draws ei wasanaethau.
- 3.18 Mae ein hamodau rheoleiddio o dan y diben cyhoeddus hwn yn rhoi pwyslais arbennig ar gynnwys newydd a gwreiddiol, ac maen nhw'n cynnwys:
- mwy o ofynion ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol ar BBC One, BBC Two, CBBC a BBC Four. Rhaid i o leiaf 75% o'r holl oriau ar BBC One fod yn gynyrchiadau gwreiddiol, a rhaid i 90% fod yn ystod oriau brig. Rydyn ni hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd ei bod yn rhaid i 75% o'r rhaglenni ar BBC Alba fod yn gynyrchiadau gwreiddiol. Dengys ein hymchwil fod cynnwys gwreiddiol sy'n cael ei gomisiynu yn y DU yn bwysig i gynulleidfaoedd a'u bod yn disgwyl hynny gan y BBC;
  - gofynion newydd i sicrhau buddsoddiad y BBC mewn rhaglenni newydd sbon a sicrhau eu bod ar gael i'r cynulleidfaoedd mwyaf. Bydd yn rhaid i BBC One ddarlledu 4,000 awr o raglenni gwreiddiol o'r DU a fydd yn cael eu dangos am y tro cyntaf a BBC Two 2,200 awr;
  - amod rheoleiddio i ddiogelu cynnyrch comedi ar BBC One a BBC Two am y tro cyntaf;
  - gofynion newydd ar Radio 1 a Radio 2 i chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r hyn mae gorsafoedd masnachol tebyg yn ei wneud a mwy o gerddoriaeth gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn y DU; a
  - gofyniad i Radio 1 gynnig nifer sylfaenol o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr bob blwyddyn.

- 3.19 Rydyn ni eisiau i'r BBC ddatgan yn glir yn ei gynllun blynyddol a'i gylch gwaith creadigol bob blwyddyn sut bydd yn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu, a sut bydd pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cyfrannu at gyflawni hyn. Bydd natur unigryw hefyd wrth galon sut rydyn ni'n mesur perfformiad. Bydd gan ein traciwr perfformiad newydd ar gyfer y BBC adran sy'n edrych yn benodol ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ynghylch natur unigryw gwasanaethau'r BBC maen nhw'n eu defnyddio.

## **Diben cyhoeddus (4): Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny**

- 3.20 Mae gan bawb yn y DU – o bob cefndir ac o bob rhan o'r wlad – ran yn y BBC. Rhaid i'r BBC adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth y DU drwyddi draw. Mae ymchwil cynulleidfa Ofcom yn awgrymu nad yw'r BBC yn adlewyrchu ac yn portreadu rhai grwpiau'n ddigonol, ac nad yw'n cyrraedd neu'n gwasanaethu rhai cynulleidfaoedd yn arbennig o dda. Mae Diben Cyhoeddus 4 yn mynnu bod y BBC *“yn adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddilys fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas.”*

## **Amrywiaeth, portreadu a chynrychioli cynulleidfaoedd**

- 3.21 Rydym wedi gosod pedwar amcan ar gyfer y BBC o ran yr agwedd amrywiaeth ar y diben cyhoeddus hwn. Ymysg y rhain, mae amcan i'r BBC adlewyrchu amrywiaeth cymunedau gwahanol y DU yn briodol yn ei allbwn a'i wasanaethau. Dylai hyn gynnwys oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnid economaidd-gymdeithasol. Rhaid iddo hefyd gynrychioli'n gywir a phortreadu'n ddilys gymunedau amrywiol ledled y DU. Rydyn ni'n cydnabod y safbwynt sy'n cael ei fynegi'n eang y dylai'r BBC wneud mwy i wella sut mae pobl yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin ac ar yr awyr.
- 3.22 Rydyn ni'n cytuno â'r safbwynt a fynegwyd gan nifer a ymatebodd i'n hymgyngoriad fod gan y BBC ddipyn o gynnydd i'w wneud i wella amrywiaeth ymysg ei gyflogeion. Yn ein hadroddiad ym mis Medi 2017 *Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal yn y diwydiant Teledu*, roedden ni wedi dweud, ac ystyried maint a graddfa'r BBC, y dylai arwain y ffordd a gosod esiampl i eraill ar draws y bwrdd.
- 3.23 Roedden ni wedi ystyried ystod eang o safbwyntiau gan ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau i osod targedau amrywiaeth ar draws y gweithlu ar gyfer y BBC, a chlustnodi cyllid ar gyfer cynrychiadau sy'n cael eu diffinio fel rhai amrywiol. Ar ôl ystyried pob ymateb yn ofalus, rydyn ni wedi penderfynu cynyddu eto nifer ac amrywiaeth y mesurau i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran amrywiaeth.

- 3.24 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer y BBC o dan y diben cyhoeddus hwn yn cynnwys y canlynol:
- a) byddwn yn sicrhau bod y BBC yn atebol yn gyhoeddus am gyrraedd ei dargedau ar amrywiaeth y gweithlu. Ers cyhoeddi ein Trwydded ddrafft, mae Bwrdd newydd y BBC wedi cadarnhau targedau ar gyfer amrywiaeth ei gyflogeion.<sup>6</sup> Rhaid iddo nawr ddarparu adroddiad blynyddol manwl i Ofcom ar ei gynnydd at gyflawni'r targedau hyn. Mae lefelau uchel o dryloywder ac atebolrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau newid cadarnhaol yn y maes hwn. Rhaid i'r BBC adrodd ar oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol ei gyflogeion;<sup>7</sup>
  - b) mae gan y BBC dargedau amrywiaeth ar gyfer cynrychiolaeth ar y sgrin ac ar yr awyr, sy'n berthnasol i'r nifer a'r mathau o rolau sy'n cael eu llenwi gan fenywod; gan bobl o gefndir lleiafrifol; a gan bobl anabl. Rydyn ni'n mynnu bod y BBC yn mesur ac yn adrodd i Ofcom bob blwyddyn ar ei amrywiaeth ar y sgrin ac ar yr awyr, er mwyn i Ofcom a'r cyhoedd allu craffu ar ei berfformiad ac asesu a yw'n dod yn ei flaen yn ddigonol ac a ydy cynulleidfaoedd yn fodlon. Mae hyn yn cynnwys sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol; sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth y DU i gyd ar y sgrin ac ar yr awyr, gan roi ystyriaeth benodol i raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf; a sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o ddiwyllïannau a safbwyntiau gwahanol. Os ydy cynulleidfaoedd yn anfodlon, rhaid i'r BBC egluro a gweithredu mesurau ynghylch sut bydd yn gwella;
  - c) rhaid i'r BBC roi Cod Ymarfer comisiynu newydd ar waith ar gyfer amrywiaeth, a fydd yn cael ei gymeradwyo gennym ni, erbyn mis Ebrill 2018. Bydd hwn yn sicrhau bod ystyried amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin yn cael ei wreiddio yn y broses gomisiynu, gan fynnu bod comisiynwyr a chynhyrchwyr yn dangos sut mae eu rhaglenni'n adlewyrchu grwpiau gwahanol. Yn benodol, rhaid i'r Cod roi camau'r BBC mewn perthynas â phortreadu a chastio ar y sgrin, ac amrywiaeth y gweithlu, wrth gomisiynu a chynhyrchu cynnwys. Pan fydd y Cod ar waith, bydd yn berthnasol i bob comisiwn – boed hwnnw'n cael ei gynhyrchu'n fewnol gan y BBC neu'n allanol, gan gynnwys BBC Studios. Bydd y Cod Ymarfer yn helpu i integreiddio amrywiaeth i'r broses o wneud rhaglenni, a gwthio'r diwydiant ehangach i wella sut mae'n adlewyrchu cymdeithas.
- 3.25 Rydyn ni hefyd yn cyhoeddi adolygiad manwl o sut caiff cynulleidfaoedd gwahanol eu cynrychioli a'u portreadu ar y BBC. Dylai pob cynulleidfa deimlo bod y BBC yn cynnig rhywbeth iddyn nhw, ond mae ein hymchwil yn dangos bod sawl grŵp yn teimlo nad yw'n cynrychioli eu diddordebau hwy neu eu bywydau'n ddigonol. Dyma ein hadolygiad ad hoc cyntaf o'r BBC. Bydd yn gofyn beth mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl gan y BBC, er mwyn

---

<sup>6</sup> Mae targedau gweithlu'r BBC ar gyfer 2020 yn berthnasol i'r gyfran o'r holl staff ac arweinwyr sy'n fenywod (50%); sydd ag anabledd (8%); sydd o gefndir du, Asiaidd a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (15%); ac sy'n LGBT (8%).

<sup>7</sup> Rydyn ni'n mynnu bod y BBC yn darparu adroddiad ar amrywiaeth yr holl staff sy'n gweithio mewn maes sy'n gysylltiedig â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU. Ni fydd hyn yn cynnwys data gweithwyr BBC World Service a gwasanaethau masnachol.



deall a yw'n adlewyrchu ac yn portreadu bywydau pawb ar draws y DU i gyd, gan amrywio o gynulleidfaoedd iau a hŷn i gymunedau amrywiol.

## Y gwledydd a'r rhanbarthau

- 3.26 Mae diben cyhoeddus 4 yn rhoi cyfrifoldeb ar y BBC i ddarparu cynnwys sy'n diwallu anghenion pob cynulleidfa ar draws y DU. Dau o brif feysydd y diben cyhoeddus ydy bod y BBC yn darparu "*allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig*" ac yn "*buddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad*".
- 3.27 Mae ein hadroddiad yn 2017 ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn dangos nad ydy cynulleidfaoedd ar draws y DU bob amser yn teimlo bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, gan gynnwys y BBC, yn portreadu'r gwledydd a'r rhanbarthau'n deg. Roedd ein hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2015 hefyd wedi canfod bod cynulleidfaoedd yn y gwledydd datganoledig yn teimlo nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol o'i gymharu â chynulleidfaoedd yn Lloegr.
- 3.28 Wrth sicrhau darpariaeth y BBC ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau, rydyn ni wedi ystyried ein hymchwil blaenorol a pherfformiad y BBC yn y gorffennol. Rydyn ni hefyd wedi ystyried safbwyntiau cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid sy'n awgrymu bod lle i'r BBC wella sut mae'n diwallu anghenion holl bobl y DU.
- 3.29 Rydyn ni wedi gosod amcanion ar gyfer y BBC mewn perthynas â'r gwledydd a'r rhanbarthau. Rhaid iddo gynrychioli a phortreadu pob grŵp cynulleidfa yn gywir ac yn ddilys. Rhaid iddo hefyd ddsbarthu ei adnoddau cynhyrchu a chefnogi diwydiannau creadigol ar draws y DU.
- 3.30 At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n dull gweithredu i roi mwy o ffocws ar gynhyrchu ym mhob un o wledydd y DU, a lefelau wedi'u gwarantu o raglenni ar gyfer y gwledydd. Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y dylem gyflwyno rhagor o ofynion, yn enwedig ar gyfer genres teledu a radio yn y gwledydd. Ond, roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys y BBC, wedi awgrymu y byddai cwotâu cynhyrchu o ran oriau ar gyfer y gwledydd unigol yn llesteirio rhyddid creadigol y BBC, gan niweidio ansawdd rhaglenni.
- 3.31 Rydyn ni wedi ystyried yr holl safbwyntiau hyn ar ein cynigion manwl. Rydyn ni'n dal yn sicr, er mwyn i'r BBC wasanaethu ac adlewyrchu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU yn well, bod angen i ragor o'r rhaglenni mae'n eu gwneud gael eu gwneud yn yr ardaloedd hynny. Ein dull gweithredu ydy rhoi mwy o ffocws ar gynhyrchu ym mhob un o wledydd y DU, ac ar lefelau wedi'u gwarantu o raglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC adeiladu ar yr hyn mae eisoes yn ei wneud, a gwneud rhagor o raglenni y tu allan i Lundain. Dylai adlewyrchu bywyd ac agweddau ym mhob rhan o'r DU, a chyfrannu at economïau creadigol cynaliadwy y tu hwnt i Lundain.
- 3.32 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer y BBC o dan y diben cyhoeddus hwn yn cynnwys:

- a) mae'n rhaid i'r BBC wario tua'r un faint ar raglenni y pen yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal â sicrhau bod o leiaf hanner y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain.<sup>8</sup>
- b) rydyn ni wedi pennu nifer sylfaenol yr oriau o raglenni rhwydwaith cymwys y mae'n rhaid eu gwneud ym mhob gwlad sef 30% ar gyfer Lloegr (y tu allan i'r M25); 8% ar gyfer yr Alban; 4% ar gyfer Cymru (gan godi i 5% o 2022 ymlaen); a 2% ar gyfer Gogledd Iwerddon (gan godi i 3% o ganol y Siarter ymlaen).
- c) rydyn ni wedi gosod lefelau sylfaenol ar gyfer gwariant ar gynyrchiadau rhwydwaith cymwys ym mhob gwlad sef 28% ar gyfer Lloegr y tu allan i'r M25 (gan godi i 30% o 2020 ymlaen), 8% ar gyfer yr Alban, 5% ar gyfer Cymru a 3% ar gyfer Gogledd Iwerddon. Er ein bod yn cydnabod pryderon y BBC, rydyn ni'n meddwl bod hyn yn warant bwysig ar gyfer economïau creadigol a chynulleidfaoedd ar draws y DU. Bydd hyblygrwydd i'r BBC gynnig canolbwyntio cynyrchiadau drud mewn un wlad, y byddem yn ymgynghori yn ei gylch ac yn ei ystyried fel sy'n briodol;
- d) ar fersiynau'r gwledydd o BBC One, rhaid i'r BBC ddarparu o leiaf 290 awr o newyddion a materion cyfoes yn yr Alban (265 awr oedd y gofyniad blaenorol); o leiaf 275 awr yng Nghymru (250 awr oedd y gofyniad blaenorol), ac o leiaf 310 awr yng Ngogledd Iwerddon (280 awr oedd y gofyniad blaenorol).

3.33 Rydyn ni hefyd yn gosod amodau rheoleiddio newydd i sicrhau bod y BBC yn cyflwyno amrywiaeth addas o raglenni ar gyfer cynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau; ar ddarparu newyddion ar orsafoedd radio lleol; ac yn ymwneud â gofynion newyddion, gwybodaeth, chwaraeon ac iaith ar-lein ar gyfer y gwledydd a rhanbarthau Lloegr. Byddwn ni'n adolygu ein cyfarwyddyd Gwnaed y Tu Allan i Lundain ar gynyrchiadau rhanbarthol. Bwriad y cyfarwyddyd hwn ydy helpu i sicrhau bod y cynhyrchu rhaglenni sy'n gymwys i'r gwledydd perthnasol, neu'r tu allan i cwotâu'r M25, yn cefnogi ac yn cryfhau cynhyrchu yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU.

Byddwn ni'n asesu a oes angen newid ein harweiniad i ddarlledwyr ar sut i gydymffurfio â'u gofynion rhaglenni a gwneud rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol. Rydyn ni wedi dechrau trafod â'r diwydiant er mwyn dechrau casglu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad ac rydyn ni heddiw wedi cadarnhau y byddwn ni'n lansio cais am dystiolaeth yn chwarter cyntaf 2018.

## Craffu ar berfformiad y BBC

3.34 Mae'r amodau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer y BBC yn y Drwydded yn ganolog i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus ac yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, dim ond rhan o sut byddwn ni'n dal y BBC i gyfrif am gyflawni ydy'r rhain. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn caniatáu i Ofcom sefydlu mesurau

---

<sup>8</sup> I gael rhagor o wyodaeth am gynyrchiadau rhwydwaith cymwys, darllenwch arweiniad Ofcom yn [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0019/87040/Regional-production-and-regional-programme-definitions.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/87040/Regional-production-and-regional-programme-definitions.pdf).

perfformiad ar wahân i rai'r BBC, gan adrodd yn flynyddol ar berfformiad y BBC a chynnal adolygiadau manwl o unrhyw faterion sy'n peri pryder.

- 3.35 Bydd hyn yn sicrhau bod ein dull gweithredu o ran dal y BBC i gyfrif yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Mae'r Siarter newydd yn mynnu bod y BBC yn sefydlu ei fesurau perfformiad ei hun, fel y mae wedi'i wneud yn y gorffennol, a byddwn yn ystyried data'r BBC yn ein gwaith. Fodd bynnag, mae hi'n bwysig bod ein mesurau perfformiad hefyd yn annibynnol: rhaid i drefn rheoleiddio gredadwy gael mynediad at sail dystiolaeth annibynnol.
- 3.36 Yn ein hymgyngoriad, roedden ni'n cynnig fframwaith mesur perfformiad a oedd wedi'i gynllunio i roi darlun manwl a chynhwysfawr i Ofcom – ac i gynulleidfaoedd – o sut mae'r BBC yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus drwy ei wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Byddai'r mesurau perfformiad hyn yn edrych ar y cynnwys mae'r BBC yn ei greu, sut mae'n cyrraedd cynulleidfaoedd, lefelau'r buddsoddiad, defnydd cynulleidfaoedd ac effaith y cynnwys hwn ar gynulleidfaoedd.
- 3.37 Cawsom gefnogaeth gyffredinol gan y rhai a ymatebodd i'n dull gweithredu yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn canolbwyntio ein mesurau perfformiad ar wasanaethau unigol, grwpiau o wasanaethau neu allbwn cyffredinol y BBC ei hun, gan ddibynnu ar beth sydd fwyaf priodol. Byddwn yn defnyddio ystod eang o ffynonellau data i wneud hyn, fel safonau presennol y diwydiant fel BARB a RAJAR yn ogystal â data a gyflenwir gan y BBC ynghylch amserlenni a materion ariannol. Byddwn hefyd yn cynhyrchu ein data ein hunain drwy ymchwil cynulleidfa, gan gynnwys traciwr perfformiad BBC newydd sy'n pwysleisio safbwyntiau amrywiaeth o gynulleidfaoedd ynghylch y BBC yn gyffredinol, gan gynnwys i ba raddau mae cynulleidfaoedd yn teimlo bod y BBC yn gwasanaethu "pobl fel fi". Mae Atodiad 5 yn rhoi'r ffynonellau data a'r mesurau perfformiad penodol byddwn ni'n eu defnyddio i fonitro perfformiad y BBC.
- 3.38 Gyda'i gilydd, bydd y gwaith yma'n rhoi darlun manwl, sy'n datblygu, i ni o beth ydy barn cynulleidfaoedd, a sut mae'r BBC yn cyflawni'r genhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ein hadroddiad blynyddol, ein hadolygiadau cyfnodol ac unrhyw adolygiadau ychwanegol y byddwn ni'n eu lansio yn ystod cyfnod y Siarter. Bydd yn rhoi rhybudd cynnar ar gyfer meysydd o dangyflawni posib gan y BBC, a bydd yn caniatáu i ni ymateb i hynny. Os gwelwn ni, er enghraifft, dystiolaeth o ddirywiad mewn perfformiad neu fodlonrwydd cynulleidfaoedd, gallem weithredu er mwyn gosod neu addasu amodau rheoleiddio, neu lansio adolygiad manwl. Byddwn yn gwella ac yn addasu ein mesurau perfformiad dros amser, i sicrhau ein bod ni'n cyfleu pryderon cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yn ystod cyfnod y Siarter.

## Y camau nesaf a rôl barhaus Ofcom

- 3.39 Daw'r amodau rheoleiddio sydd yn y Drwydded i rym ar 1 Ionawr 2018, a bydd rhai gofynion yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018. Rydyn ni eisoes wedi dechrau ein gwaith ar fonitro perfformiad y BBC, a bydd ein cyfres gyntaf o wybodaeth am berfformiad yn cael ei chyhoeddi yn ystod tymor yr Hydref 2018.

- 3.40 Mae'r Datganiad hwn yn sefydlu'r darn olaf o fframwaith cyffredinol Ofcom ar gyfer rheoleiddio'r BBC. Rydyn ni eisoes wedi cyhoeddi rheolau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'n cyfrifoldebau newydd eraill:
- a) Safonau darlledu. Mae gan Ofcom nawr gyfrifoldeb rheoleiddio dros safonau cynnwys yng nghyswllt gwasanaethau darlledu a rhaglenni ar-alwad y BBC gan gynnwys, am y tro cyntaf, cywirdeb a didueddrwydd rhaglenni newyddion a materion cyfoes y BBC. Ym mis Mawrth, roedden ni wedi diweddarau'r rheolau yn ein Cod Darlledu i adlewyrchu'r cyfrifoldebau newydd hyn a gosod gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion. Dylai gwylwyr a gwrandawyr allu ymddiried yn yr hyn maent yn ei weld a'i glywed. Dylent wybod bod camau wedi cael eu cymryd i osgoi unrhyw dramgwyddo heb gyfiawnhad, a bod amddiffyniad yn ei le rhag deunydd sy'n peri niwed; a
  - b) Cystadleuaeth deg ac effeithiol. Fel corfforaeth sy'n cael cyllid cyhoeddus a'r sefydliad cyfryngau sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf yn y DU, mae'r BBC yn dal safle unigryw. Mae Ofcom yn gyfrifol am asesu effaith gweithgareddau'r BBC ar gynulleidfaoedd a sector cyfryngau'r DU, ac yn gosod rheolau ynghylch sut dylai'r BBC ymddwyn. Mae gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr yn gallu elwa o gystadleuaeth deg ac effeithiol. Mae'n gallu rhoi mwy o ddewis ac yn ysgogi buddsoddiad ac arloesedd - gan sicrhau y darperir ystod eang o raglenni amrywiol o safon uchel a gwahanol ffyrdd o gael gafael arnynt. Pan fydd y BBC yn cynnig lansio neu amrywio ei wasanaethau'n sylweddol mewn ffordd a allai niweidio cystadleuaeth neu ddewis, yna gallwn gamu i mewn.
- 3.41 Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ffurfiol cyntaf ar sut rydyn ni wedi cyflawni ein swyddogaethau yng nghyswllt y BBC, gan gynnwys asesiad o gydymffurfriad y BBC â'r amodau rheoleiddio yn y Drwydedu, ar ôl i ni dderbyn adroddiad blynyddol y BBC ar gyfer 2017/18. Bydd hyn yn parhau bob blwyddyn, tan yr adolygiad canol y Siarter a'r tu hwnt.
- 3.42 Mae ein dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r BBC wedi cael ei ddylunio i gyflawni'r weledigaeth sydd ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth a'r Siarter newydd: BBC annibynnol, cryf ac unigryw sy'n cael ei ddal i gyfrif gan reoleiddiwr cryf ac annibynnol. Rydyn ni wedi mynd ati i greu fframwaith sy'n herio'r BBC ac sy'n ei gymell i wella'n gyson, gan gydbwysu rhyddid creadigol gydag atebolrwydd ar gyfer cyflawni ei genhadaeth.
- 3.43 Rhaid i ddarlledwr sydd gyda'r gorau yn y byd herio ei hun yn gyson i gyflawni ar gyfer ei holl gynulleidfaoedd, a byddwn yn cefnogi hynny drwy herio a chraffu cadarn ac annibynnol. Ni fyddwn yn derbyn safonau sy'n disgyn ar allbwn a gwasanaethau'r BBC. Os na fydd y BBC yn cyrraedd y nod, byddwn yn camu i mewn ar ran cynulleidfaoedd. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn rhoi'r cyfrifoldeb arnon ni, wedi'i ategu gan y pwerau i osod rhagor o amodau rheoleiddio, a sancsiynau gan gynnwys dirwyon<sup>9</sup>. Drwy ein rhaglen o fesur perfformiad a chraffu ar y BBC, byddwn yn tracio ei berfformiad ac yn llunio adroddiad tryloyw ar hynny; ac, os bydd raid, byddwn ni'n defnyddio'r pwerau rydyn ni wedi'u cael i wneud yn siŵr fod y BBC yn cyflawni ar gyfer gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr ledled y DU.

---

<sup>9</sup> Mae Ofcom yn pasio unrhyw gosbau ariannol sy'n cael eu talu ymlaen at Drysorlys EM.